Cyngor Bwrdeisdref Sirol
Blaenau Gwent
County Borough Council

Teitl: **Partner Busnes Adnoddau Dynol (Addysg / Ysgolion)**

Cyfarwyddiaeth: **Gwasanaethau Corfforaethol, Datblygu Sefydliadol**

Swydd Rhif: **BG08707**

Cyflog: **Gradd 7 (£32,909 - £36,298 y flwyddyn)**

Oriau: **37 awr yr wythnos**

Contract: **Parhaol – Gweithiwr Ystwyth**

Crynodeb Swydd

Daeth cyfle cyffrous ar gael ar gyfer gweithiwr proffesiynol profiadol a medrus iawn ym maes Adnoddau Dynol i ymuno â'n tîm prysur fydd yn rhannu ein gwerthoedd ac yn anelu i wneud y Cyngor yn lle gwych i weithio ynddo, gyda gweithlu a all ddiwallu anghenion cyfredol a dyfodol ein cymuned.

Fel Partner Busnes Adnoddau Dynol, byddwch yn darparu gwasanaeth Adnoddau Dynol gyda ffocws ar y cwsmer i reolwyr addysg, penaethiaid a rheolwyr ysgolion, yn cynnwys Llywodraethwyr. Bydd hyn ar draws yr ystod lawn o weithgaredd Adnoddau Dynol gyda ffocws ar gefnogi penaethiaid ysgol a llywodraethwyr i reoli adnoddau dynol yn effeithiol ac i lywodraethwyr gyflawni eu cyfrifoldebau perthnasol a chydymffurfio gyda pholisi a deddfwriaeth.

Hysbyseb Lawn

Edrychwn am Bartner Busnes Adnoddau Dynol profiadol, gyda sgiliau a chymhelliant uchel i gydweithio gyda rheolwyr addysg a phenaethiaid ysgol i ddarparu gwasanaeth Adnoddau Dynol gyda ffocws ar y cwsmer.

Byddwch hefyd yn gyfrifol am:

- Cyfrannu at a chefnogi darparu strategaeth gweithlu i wella darpariaeth gwasanaeth drwy gynlluniau rheoli pobl a datblygu sefydliadol effeithiol.

- Darparu cyngor a chefnogaeth proffesiynol yng nghyswllt recriwtio a dethol, datrys materion cysylltiadau cyflogeion heriol a chymhleth, achosion disgyblaeth, cwynion, absenoldeb salwch a rheoli perfformiad.

- Galluogi a chefnogi trawsnewid drwy ddefnyddio ymyriadau Datblygu Sefydliadol a strategaethau rheoli Adnoddau Dynol effeithiol.

- Cefnogi'r diwylliant rheoli perfformiad o fewn ysgolion a'r Gwasanaeth Addysg, yn cynnwys gwaith achos cysylltiedig â galluedd a chynghori a llywio rheolwyr addysg a phenaethiaid ysgol drwy'r polisïau perthnasol.

- Gweithio mewn cysylltiad gyda'r tîm trafodion i ddatblygu a chefnogi trefniadau recriwtio a phenodi i sicrhau gwasanaeth effeithiol ac sy'n gwella ar gyfer ysgolion a gweithredu fel cynrychiolydd Datblygu Sefydliadol mewn cyfarfodydd recriwtio penaethiaid a dirprwy benaethiaid ysgol, fel sy'n briodol.

- Rhoi cefnogaeth a chyngor yng nghyswllt cynllun gwerthuso swyddi yr Awdurdod a chynorthwyo gyda phrosesau a gweithdrefnau perthnasol.

- Gweithio mewn partneriaeth gydag undebau llafur a rhanddeiliaid allweddol.

Bydd gennych gymhwyster CIPD (o leiaf lefel 5) neu gyfwerth gyda gwybodaeth o ddeddfwriaeth cyflogaeth a'i chymhwyso. Mae hanes amlwg o lwyddiant a phrofiad o weithio mewn Adnoddau Dynol yn delio gyda materion cysylltiadau cyflogeion cymhleth yn hanfodol.

Yr hyn y gallwn ei gynnig i chi:

- Cyflog cystadleuol
- Mynediad i gynllun pensiwn hael
- Darpariaethau hael ar gyfer gwyliau blynyddol ac absenoldeb arbennig
- Trefniadau gweithio hyblyg, yn nhermau oriau gwaith, trefniadau gwaith a lleoliadau gwaith
- Ystod eang o bolisïau cyfeillgar i'r teulu i gefnogi cydbwysedd bywyd-gwaith iach
- Cynllun buddion cyflogeion sy'n cynnwys amrywiaeth o gynigion a gostyngiadau
- Mynediad i'n rhaglen Cymorth Cyflogeion
- Cyfleoedd hyfforddiant a datblygu

Byddwch angen mynediad i gerbyd ar gyfer dibenion gwaith.

Cynhelir sgrinio cyn-cyflogaeth trwyadl yn ystod y broses recriwtio. Bydd angen i ddeiliad y swydd gwblhau cais am Ddatgeliad Cofnodion Troseddol.

Dyddiad Cau: Canol nos 1 Mehefin 2023

Dyddiad Cyfweliadau: 13 Mehefin 2023